# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 18 Ebrill 2024 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd David Roberts
Y Cynghorydd Mary Hayes

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Beca Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, Cyng. Lowri Jones.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Mair Owen Pierce, Sian Beidas, Anwen Jones a Gareth P Williams.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Llwybr Rhif 3** - Nodwyd fod y swyddog llwybrau wedi cael sgwrs gyda thenantiaid y tir ac nid oes ganddynt wrthwynebiad i'r gwaith gwella llwybr troed mewn egwyddor - ar y gweill.

3.2 **Seddi Gwag –** Y Clerc wedi hysbysebu'r sedd wag, dim ymateb hyd yn hyn. Os nad oes diddordeb, y Clerc i hysbysebu eto.

3.3 **Biniau Baw Ci –** Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts wedi gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug. Cadarnhawyd fod y Cyng. Beca Roberts hefyd wedi gwneud cais am fin ar bont Penrala yn Nhregarth. Nid yw'r Cynghorydd yn derbyn unrhyw ymateb gan Gyngor Gwynedd.

3.4 **Arhosfan Bws/'Pull-in Bay' Llys y Gwynt -** Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu â Cyng. Beca Roberts a Sian Gwenllian AS am y posibilrwydd o drefnu cyfarfod gyda Arriva a Chyngor Gwynedd i drafod y mater ymhellach. Nodwyd y Cyng. Beca Roberts ei bod hi wrthi yn trefnu deiseb ar gyfer ymgorffori arhosfan ychwanegol yn, neu'n agos at, 'Llys y Gwynt/One Stop' a theithio trwy bentref Tregarth ar ddydd Sul. Fydd y ddeiseb hon yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru - ar y gweill.

**3.5 Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – estynu'r linell wen a gosod 'road studs coch (Ian Morgan). Y Cyng. Beca Roberts i holi Andrew Gregson am y cynllun llinellau melyn dwbl sydd i'w leoli yma – ar y gweill.

**3.6 Llecyn Tir Bont Twr** - Nodwyd fod y Clerc wedi ail danfon y dogfennau perthnasol at Matt Brown i amlygu fod tir mewn sylw i fod o dan berchnogaeth y Cyngor Cymuned, ac nid Breedon. Cynigwyd cyfarfod i drafod ymhellach - ar y gweill.

**3.7 Gyli yng ngwaelod ffordd Chwarel Goch -** Adroddwyd y Clerc i Gyngor Gwynedd fod angen glanhau'r gyli, ar raglen waith Cyngor Gwynedd.

**3.8 Bin Halen Dob –** Bin halen dal wedi torri, y Clerc wedi adrodd eto i Ian Morgan o Gyngor Gwynedd.

**3.9 Cynllun Llifogydd Mynydd Llandygai -** Adroddwyd fod y Cyng. Gareth P Williams wedi mynychu'r 'drop-in' yn y Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai ar y 18fed o Fawrth. Ni dderbyniwyd y Cyngor unrhyw wybodaeth am y digwyddiad hwn. Yn dilyn sgwrs gyda YGC, derbyniwyd ymddiheuriad fod y Cyngor Cymuned heb gael ei ymgynghori am y digwyddiad hwn, a sicrhawyd y byddent yn ymgynghori a'r Cyngor Cymuned ar unrhyw ddigwyddiad tebyg yn y dyfodol.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2024'

**4.1 Lynda Owen, Trysorydd Fynwent St Anns - Cais am rodd tuag at gynnal a chadw mynwent St Anns -** Penderfynwyd rhoi rhodd o £500.

**4.2 Ann E Williams, Trysorydd Eglwys St Tegai - Cais am rodd tuag at gynnal a chadw mynwent St Tegai** - Penderfynwyd rhoi rhodd o £500.

**4.3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 -** Y Clerc i ymateb i nodi cefnogaeth y Cyngor.

**6. Gwaith y mis**

**Cŵn yn rhydd ar Gae Pêl-droed Tregarth -** Nodwyd Y Cyng. Dafydd Owen fod llawer o gŵn yn cael ei gadael yn rhydd ar y Cae Pêl-droed yn Nhregarth - y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

**Nodwyddau a thipio anghyfreithlon ar Gae Chwarae Tregarth -** Adroddwyd fod llawer o nodwyddau wedi'i ddefnyddio wedi cael ei adael ar ochr y Cae Chwarae yn Nhregarth. Cytunwyd y bydd y Cyng. Beca Roberts yn trafod hyn gyda'r heddlu. Nodwyd hefyd fod tipio anghyfreithlon wrth ochr y Parc i lawr am y ffos - y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd eisoes.

**7. Adroddiad Cynrychiolwyr**

**7.1 Canolfan Tregarth** - Derbyniwyd diweddariad gan y Cyng. Dafydd Owen am ddatblygiadau diweddar yn y Ganolfan.

**7.2 Ysgol Tregarth** - Adroddwyd fod y Cyng. Dafydd Owen wedi ymddiswyddo o'r Bwrdd Llywodraethwyr, felly bydd angen cynrychiolydd newydd o'r Cyngor. Nodwyd fod y Pennaeth dros-dro bellach wedi cael ei benodi fel Pennaeth parhaol.

**7.3 Cylch Feithrin Tregarth** - Cadarnhawyd fod y Cylch bellach o dan gynllun Dechrau'n Deg.

**8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

8.1 Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**9. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| T Shaw | Glanhau o amgylch y Ganolfan | £220.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Swyddog Cynnal 2023-24 | £3444.48 |
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu Medi 2023 – Mawrth 2024 | £954.00 |

**10. Penderfyniadau Cynllunio**

**C18/0767/16/LL**

Coed Wern, Glasinfryn
Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C23/0728/16/LL**

Cae Clyd Dob, Tregarth
Codi annedd teuluol
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C23/0918/16/LL**

Fferm Tan y Foel, Rallt, Pentir
Codi annedd gweithiwr amaethyddol a thanc septig cysylltiedig ynghyd a gwaith tirlunio
**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C24/0004/16/LL**

Land at Maes Talog, Tregarth
Codi annedd marchnad agored sengl deulawr a garej ddwbl ar wahân.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C23/1019/16/YA**

Rhes Amana, Y Gefnan, Mynydd Llandygai
Adeilad amaethyddol at bwrpas cadw offer a storio peiriannau a phorthiant anifeiliaid. Maint arwynebedd llawr 12m x 8m.
**Penderfyniad:** Caniatawyd heb amodau

**C24/0064/16/AC**

14 Y Gefnan, Mynydd Llandygai
Cais i ddiwygio amod 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) o ganiatâd C23/0777/16/DT, ar gyfer estyniad llawr cyntaf newydd yn y cefn ynghyd ag ardal to

| | |
|---|---|
| | fflat newydd gydag atriwm, er mwyn caniatáu diwygiad i'r dyluniad i godi uchder to'r estyniad 400mm.<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd |
| **C23/1026/16/DT** | 33 Tan Y Bwlch, Mynydd Llandygai<br>Trosi rhan o adeilad allanol yn anecs.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C24/0095/16/RA** | Breedon, Chwarel Penrhyn<br>Cais ar gyfer rhyddhau amodau 11 (Mesuriadau osgoad rhesymol i warchod ymlusgiaid) , 33 (Adroddiad monitro Gwaun Gynfi), 34 (Sustem draenio dŵr wyneb) a 38 (Cynllun rheoli/strategaeth cynnal archeolegol) o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C22/0327/16/AC<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0071/16/LL** | Cnc Fuels Parc Bryn Cegin, Llandygai<br>Codi 10 uned ddiwydiannol, mynediad newydd, parcio a thirlunio.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0048/16/LL** | Ynys Ganol, Mynydd Llandygai<br>Adeiladu Menage gydag arwyneb tywod a ffibr gyda ffensys Post a Rheilen o'i amgylch ar gyfer defnydd preifat yn unig.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0128/16/CA** | 21 Pentre Llandygai, Llandygai<br>Gwaith i goed mewn ardal gadwraeth<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd (heb amodau) |
| **C24/0150/16/LL** | Cae Herfyn Cottage, Tal Gae, Tregarth<br>Cael gwared ar gwt haf pren presennol a chodi cwt bugeiliaid yn ei le at ddibenion gosod gwyliau<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0176/16/CC** | Plas y Coed, Bangor<br>Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**11. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C24/0219/16/LL** | Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai<br>Cael gwared ar ardal ymarfer bresennol [0.02 ha] ac adeiladu ardal ymarfer newydd wedi'i gwella a'i chynyddu [0.03 Ha] |

| | |
|---|---|
| | **Penderfyniad:** |
| **C24/0251/16/LL** | Lon Las Ogwen, Porth Penrhyn<br>Gosod mainc ddur a bwrdd dehongli<br>**Penderfyniad:** |

**13. Unrhyw fater brys arall**
Dim.

**14. Crynodeb Llais Ogwan**
Penderfynwyd cynnwys y canlynol yn grynodeb mis Ebrill:

- Sedd wag
- Deiseb gwasanaeth T10 – Arhosfan Llys y Gwynt
- Nodwyddau a thipio anghyfreithlon ger Cae Chwarae Tregarth